

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Cyngor ar Fudd-daliadau Benefit Advice

Q11 Brian Gibbons: What is the Assembly Government doing to promote access to benefit advice in Wales? (OAQ39637)

The First Minister (Rhodri Morgan): Responsibility for the benefits system is reserved to the UK Government, but I welcome this opportunity to highlight our excellent partnership with Jobcentre Plus and the work through our Communities First programme and 'Better Advice: Better Health' initiative to develop better access to advice on a range of benefits, including housing and council tax benefits. This supports the vision outlined in 'Making the Connections' of delivering better public services in Wales.

C11 Brian Gibbons: Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i hybu'r cyfle i gael cyngor ar fudd-daliadau yng Nghymru? (OAQ39637)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Cedwir y cyfrifoldeb am y system fudd-daliadau gan Lywodraeth y DU, ond croesawaf y cyfle hwn i dynnu sylw at ein partneriaeth ragorol gyda Canolfan Byd Gwaith a'n gwaith drwy ein rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a menter 'Cyngor Gwell: Iechyd Gwell' i ddatblygu gwell mynediad i gyngor ar ystod o fudd-daliadau, gan gynnwys budd-daliadau tai a'r dreth gyngor. Mae hyn yn cefnogi'r weledigaeth a amlinellir yn 'Creu'r Cysylltiadau' o ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol yn y Canolbarth a'r Gorllewin Drug and Alcohol Misuse in Mid and West Wales

Q12 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on drug and alcohol misuse in mid and west Wales? (OAQ39639)

The First Minister: The Welsh Assembly Government has charged the 22 community safety partnerships in Wales with responsibility for delivering the substance misuse national strategy at a local level. This year, £1.3 million has been allocated to the Dyfed Powys area to enable the four CSPs to implement the proposals contained in their action plans. In addition to this, each of the four local health boards also contributes ring-fenced resources from their allocation for the provision of treatment services.

C12 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (OAQ39639)

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb i'r 22 partneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru am gyflawni'r strategaeth genedlaethol ar gyfer camdrin defnyddiau ar lefel leol. Eleni, dyrannwyd £1.3 miliwn i ardal Dyfed Powys i alluogi'r pedair partneriaeth i roi ar waith y cynigion a geir yn eu cynlluniau gweithredu. Yn ogystal, mae pob un o'r pedwar bwrdd iechyd lleol hefyd yn cyfrannu adnoddau a glustnodwyd o'u dyraniad at ddarparu gwasanaethau triniaeth.

Ffigurau MRSA MRSA Figures

Q13 Kirsty Williams: Will the First Minister make a statement on publishing MRSA figures for hospitals in Wales? (OAQ39619)

C13 Kirsty Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyhoeddi'r ffigurau MRSA ar gyfer ysbytai yng Nghymru? (OAQ39619)

The First Minister: The Minister for Health and Social Services announced on 10 November that she had written to the Welsh healthcare associated infections sub-group, asking them to look at ways of producing accurate and informative information on healthcare associated infections, set in the relevant context. I understand that she has asked them to make their recommendations by Christmas. A consultation will then be held on those recommendations, with the aim of producing comprehensive information, comparing like with like in a fair and non-misleading way.

Y Prif Weinidog: Cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 10 Tachwedd iddi ysgrifennu at is-grŵp heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gan ofyn iddo ystyried ffyrdd o gynhyrchu gwybodaeth gywir ac addysgiadol ar heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, wedi'u gosod yn y cyd-destun perthnasol. Deallaf iddi ofyn iddo wneud ei argymhellion erbyn y Nadolig. Wedyn, cynhelir ymgynghoriad ar yr argymhellion hynny, gyda'r nod o gynhyrchu gwybodaeth gynhwysfawr, gan gymharu tebyg â'i debyg mewn modd teg ac mewn modd nad yw'n gamarweiniol.

Cyllid ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd Funding for the Cardiff Local Health Board

Q14 Jenny Randerson: Will the First Minister make a statement on funding for the Cardiff Local Health Board? (OAQ39632)

C14 Jenny Randerson: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyllid ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd? (OAQ39632)

The First Minister: Cardiff Local Health Board was allocated £265.5 million at the beginning of the financial year under Circular WHC(2003)124, and it have subsequently been given a further £30.7 million in-year.

Y Prif Weinidog: Dyfarnwyd £265.5 miliwn i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, o dan Gylchlythyr WHC(2003)124, ac mae wedi derbyn £30.7 miliwn pellach yn ystod y flwyddyn.

Y Cyfansoddiad Ewropeaidd The European Constitution

Q15 Mark Isherwood: What discussions has the First Minister held with his colleagues at Westminster regarding the European constitution? (OAQ39644)

C15 Mark Isherwood: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch y cyfansoddiad Ewropeaidd? (OAQ39644)

The First Minister: Throughout the convention and the inter-governmental conference on the constitutional treaty, I worked closely with ministerial colleagues across the UK through meetings of the Joint Ministerial Council (Europe), a joint contribution to the convention, and correspondence. This work continues in the run up to parliamentary ratification of the treaty and the future referendum.

Y Prif Weinidog: Drwy gydol y gynhadledd a'r gynhadledd rhyng-lywodraethol ar y cytundeb cyfansoddiadol, bŵm yn cydweithio'n yn agos â chyd-wenidogion ar draws y DU drwy gyfrwng cyfarfodydd o'r Cyngor Gweinidogion ar y Cyd (Ewrop), sef cyfraniad ar y cyd i'r gynhadledd, a drwy ohebiaeth. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod y cyfnod hyd at gadarnhad seneddol i'r cytundeb a'r refferendwm yn y dyfodol.